

Adolygiad tystiolaeth

Adolygu ein Safonau:
canfyddiadau o'n galwad
am dystiolaeth

2025

Adroddiad ar adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau: gwella rheoleiddio a chofrestru

Yn yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), rydym fel llawer o rai eraill yn y sector, eisiau chwarae ein rhan i annog symudiad gan reolyddion a chofrestrau proffesiynol tuag at ddull mwy ataliol o reoleiddio, gan greu amodau lle mae gofal yn well ac yn fwy diogel, a niwed yn llai tebygol o ddigwydd. Mae ein Safonau ar gyfer y rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig rydym yn eu goruchwyllo yn un ffordd y gallwn helpu cefnogi'r gwaith hwn o ailffocysu rheoleiddio..

Trosolwg

Ochr yn ochr â'n hymgyngoriad cyhoeddus ar ein Safonau ar gyfer y rheolyddion a'r Cofrestrau Achrededig a oruchwylwn, cynhaliom adolygiad o ymchwil gyhoeddedig, data a thystiolaeth ysgrifenedig arall a awgrymodd ffyrdd y gallai rheoleiddio a chofrestru proffesiynol wella. Gwnaethom hefyd gynnal galwad am dystiolaeth. Bwriad yr ymarfer hwn oedd llywio'r newidiadau y byddwn yn eu gwneud i'n Safonau, a helpu nodi sut y gallwn ysgogi gwelliannau drwy feysydd gwaith eraill.

Mae'r cydbwysedd rhwng dulliau ataliol ac adweithiol ym maes rheoleiddio a chofrestru proffesiynol yn tueddu i fod yn adweithiol – yn arbennig drwy ymdrin â phryderon am weithwyr proffesiynol drwy 'addasrwydd i ymarfer', ar ôl i niwed ddigwydd eisoës. Gellir dadlau nad yw swyddogaethau ataliol addysg, cofrestru, safonau ac addasrwydd i ymarfer parhaus wedi cael cymaint o sylw o safbwynt polisi a deddfwriaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein canfyddiadau o'r dystiolaeth a adolygwyd gennym. Gobeithiwn y bydd o gymorth wrth nodi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y newidiadau yr ydym yn eu gwneud ar gyfer ein Safonau, ochr yn ochr â'r hyn a glywsom gan randdeiliaid, fel y nodir yn yr adroddiad ymgynghori. Ond rydym yn gobeithio y bydd eraill sydd â diddordeb mewn gwella sut mae rheoleiddio a chofrestru yn gweithio, er budd y cyhoedd, a gweithwyr proffesiynol ac aelod o'r cyhoedd eu hunain, hefyd yn ei chael yn ddefnyddiol.

Methodoleg

Cynhaliwyd adolygiad o dystiolaeth gyhoeddedig rhwng Hydref 2024 a Mai 2025. Roedd yr ymarfer yn cynnwys adolygiad mewnol o dystiolaeth a gafwyd o ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd yn ogystal â dadansoddiad o gyfraniadau o alwad gyhoeddus am dystiolaeth a oedd yn rhedeg am 12 wythnos o 13 Chwefror i 8 Mai 2025.^{1 2} Ar y cyfan, edrychwyd ar 330 o ddarnau o dystiolaeth fel rhan o'r adolygiad.

Gofynnwyd am dystiolaeth mewn perthynas â'r swyddogaethau rheoleiddio craidd y mae ein Safonau wedi'u cwmpasu hyd yma (safonau a chanllawiau, addysg a hyfforddiant, cofrestru ac addasrwydd i ymarfer ac addasrwydd i ymarfer parhaus) yn ogystal â meysydd ffocws newydd yn ymwneud â llywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant o fewn rheolyddion. Roedd y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer adolygu dystiolaeth yn naratif yn hytrach na systematig.³ Ochr yn ochr â'r deunydd a gafwyd o'r cais am dystiolaeth, ceisiwyd dystiolaeth o ffynonellau hysbys megis archif ymchwil y PSA a gwefannau rheolyddion a defnyddiwyd cronfeydd data ymchwil Google Scholar a PMC Ewrop hefyd.

Ar gyfer dystiolaeth a dderbyniwyd drwy'r alwad am dystiolaeth ac a ganfuwyd fel rhan o ymchwil desg, cynhaliom adolygiad cychwynnol i sefydlu perthnasedd i'r ymarfer ac yna cynnal adolygiad manwl o dystiolaeth berthnasol i sefydlu canfyddiadau ac argymhellion allweddol. Gwnaethom hefyd gynnal ymarfer graddio sylfaenol gan ddefnyddio graddfa ble roedd 'cryfach' yn cwmpasu ymchwil academiaidd, reoleiddiol neu wyddonol a adolygwyd gan gymheiriaid, 'canolig' yn cwmpasu ymchwil heb ei adolygu gan gymheiriaid, adroddiadau neu arolygon gan gyrff sector, adroddiadau ymchwiliad, canllawiau a safonau, papurau polisi a thrafod a thebyg a 'gwannach' yn cyfeirio at farn wybodus, arbenigol yn y cyfryngau neu mewn mannau eraill, canlyniadau ymarfer ymgynghori a phapurau briffio.

Roedd mwyafrif helaeth y dystiolaeth yn ymwneud â'r rheolyddion proffesiynol statudol yn hytrach na'r Cofrestrau Achrededig. Roedd hyn oherwydd swm y dystiolaeth gyhoeddedig oedd ar gael yn canolbwyntio ar reoleiddio statudol yn hytrach na chofrestru achrededig. Roedd llawer mwy o dystiolaeth gyhoeddedig ar gael hefyd yn ymwneud â rhai swyddogaethau rheoleiddio nag eraill, ond nid yw'n glir a yw hyn yn dangos meysydd diddordeb/ffocws penodol i ymchwilwyr neu'n awgrymu effeithiau a materion mwy yn codi o rai swyddogaethau rheoleiddio nag eraill.

Canfyddiadau allweddol

Canfyddiadau cyffredinol

Ceisiodd yr adolygiad dystiolaeth a oedd yn awgrymu ffyrdd y gallai rheoleiddio a chofrestru proffesiynol wella ac felly roedd mwyafrif y canfyddiadau'n canolbwyntio ar effeithiau negyddol rheoleiddio. Fodd bynnag, roedd gwerth rheoleiddio ac felly'r angen i wneud iddo weithio'n well yn thema gref ochr yn ochr â'r meysydd i'w gwella.

¹ **Adolygiad Safonau PSA - Cais am Dystiolaeth | PSA**

² Cawsom 7 ymateb i'r cais am dystiolaeth gan gynnwys 118 darn o dystiolaeth. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniadau gan y Comisiwn Ansawdd Gofal a GIG Lloegr.

³ **The Difference Between Narrative Review and Systematic Review - DistillerSR**

- Diogelu'r cyhoedd, tryloywder ac ymddiriedaeth: mae rheoleiddio'n cael ei ystyried yn hanfodol ar gyfer diogelu'r cyhoedd, gan sicrhau mai dim ond ymarferwyr cymwys sy'n cael ymarfer. Fodd bynnag, mae pryderon yn bodoli ynghylch tryloywder, cysondeb a thegwch prosesau a all effeithio ar ymddiriedaeth rhanddeiliaid mewn rheoleiddio proffesiynol.⁴
- Effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a llesiant: gall rheoleiddio proffesiynol, yn enwedig prosesau addasrwydd i ymarfer (FtP), arwain at drallod seicolegol sylweddol ymhlith ymarferwyr, gan gynnwys pryder, iselder, ac, mewn achosion difrifol, synio am hunanladdiad. Mae ymchwiliadau hirfaith, diffyg cefnogaeth, a theimladau o ddiffyg grym neu ddiarddeliad yn gyffredin, gyda rhai gweithwyr proffesiynol yn ymddieithrio neu'n gadael eu proffesiynau o ganlyniad.⁵
- Anghyfartaledd ac anghydraddoldeb mewn canlyniadau rheoleiddiol: mae tystiolaeth o orgynrychiolaeth o rai grwpiau—fel gweithwyr proffesiynol Du, Asiaidd, gwrywaidd, hŷn, a gweithwyr proffesiynol a hyfforddwyd dramor—mewn cwynion, atgyfeiriadau a sancsiynau. Mae'r gwahaniaethau hyn yn cael eu dylanwadu gan ffactorau systemig, diwylliant y gweithle, ac arferion atgyfeirio, sy'n codi pryderon am degwch a chydaddoldeb mewn prosesau rheoleiddio.⁶
- Arferion amddiffynnol a newid ymddygiad proffesiynol: craffu rheoleiddiol ac ofn cwynion sy'n llywio arferion amddiffynnol, megis ymddiogelu, osgoad, ac osgoi risg. Gall hyn danseilio myfyrio agored, dysgu, a diogelwch cleifion, a gall annog gweithwyr proffesiynol i beidio â bod yn dryloyw ynghylch gwallau neu gymryd rhan mewn ymarfer myfyriol.⁷
- Achwynwyr a'r cyhoedd: mae'r dystiolaeth yn amlygu'r heriau i achwynwyr o ran cyrchu prosesau cwyno a derbyn cyfathrebiadau amserol ac empathig am gynnydd pryderon a godwyd. Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol mae nifer o feysydd wedi'u nodi lle byddai mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd yn helpu i gryfhau prosesau a dulliau rheoleiddio.⁸
- Cyfleoedd i wella prosesau a systemau: mae cynigion ar gyfer newid yn cynnwys dulliau rheoleiddio mwy trugarog, cefnogol a chymesur, gwell cyfathrebu, a datrys achosion yn amserol.^{9 10} Rhoddir pwyslais ar ddiwylliannau dysgu, adolygu cymheiriaid, a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i atal camymddwyn a chefnogi twf proffesiynol¹¹, yn ogystal â gwella casglu a dadansoddi data i helpu mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghymesuredd

⁴ **Review of research into health and care professional regulation | PSA**

⁵ **The impact of complaints procedures on the welfare, health and clinical practise of 7926 doctors in the UK: a cross-sectional survey | BMJ Open**

⁶ **Fair to refer? - GMC**

⁷ **An inspector calls: trauma-informed regulation - Abstract - Europe PMC**

⁸ **Barriers & enablers to complaining to health professional regulators**

⁹ **Witness to Harm; Holding to Account: What Is the Importance of Information for Members of the Public Who Give Evidence and May Be Witness in a Regulatory Hearing of a Health or Care Professional? - Abstract - Europe PMC**

¹⁰ **Employer support for health and social care registered professionals, their patients and service users involved in regulatory fitness to practise regulatory proceedings | BMC Health Services Research | Full Text**

¹¹ **WRAP_dynamics-of-osteopathic-regulation-final-report.pdf**

o fewn y system reoleiddio yn ogystal â chefnogi gwelliant ehangach.¹² Mae ymddiriedaeth rhanddeiliaid yn dibynnu ar gyfathrebu clir, goruchwyliaeth gadarn, a gwybodaeth hygyrch ar gofrestrau, tra'n cydbwysu effeithlonrwydd ac atebolrwydd.

System reoleiddio

Cysondeb ac Aliniad

Mae tystiolaeth, gan gynnwys o Adolygiad Williams¹³ ac Ymchwiliad Francis¹⁴, yn amlygu anghysondebau mewn canlyniadau rheoleiddio—yn enwedig mewn addasrwydd i ymarfer (FtP)—a all arwain at ganfyddiadau o annhegwch. Mae'r Awdurdod ac eraill wedi eiriol dros fwy o aliniad ar draws rheolyddion, gan gynnwys ymdrin ag achosion a fframweithiau gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae canllawiau arfer da yr Awdurdod ar wneud rheolau yn cynnwys offeryn i helpu rheolyddion i asesu pryd mae cysondeb yn ddymunol.¹⁵

Cydweithio

Mae ymholiadau ac adolygiadau lluosog, gan gynnwys Ymchwiliad Francis¹⁶, Adolygiad Paterson¹⁷ ac Adolygiad Cumberlege¹⁸ yn pwysleisio'r angen am well cydweithredu ymhlith rheolyddion a chyda rhanddeiliaid allanol. Canfu Ymchwiliad Francis fod y system reoleiddio yn ei chyfanrwydd wedi methu ag amddiffyn cleifion oherwydd nad oedd yn cydweithio'n effeithiol. Mae Cumberlege yn disgrifio sut: *'Roedd pob [sefydliad] yn gweithio o fewn y cylch gorchwyl a oedd yn ofynnol ganddynt. Nid oedd y cysylltiadau rhyngddynt a'r oruchwyliaeth o'r system gyfan wedi gweithio.'* Ystyrir bod cydweithredu yn hanfodol i wella diogelwch cleifion ac effeithiolrwydd rheoleiddio.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

Roedd EDI yn thema allweddol ym mron pob maes a archwiliwyd. Amlygodd tystiolaeth, er bod camau wedi'u cymryd i sicrhau bod EDI yn cael sylw o fewn rheoleiddio, bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau ei fod wedi'i ymgorffori mewn fframweithiau rheoleiddio a diwylliant sefydliadol.¹⁹

Roedd y meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer gwelliant yn cynnwys:

- Neilltuo atebolrwydd ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
- Cyfleu gweledigaeth glir yn fewnol ac yn allanol.

¹² [Protected characteristics of pharmacists involved in managing concerns process for 2023/24](#)

¹³ [Williams review into gross negligence manslaughter in healthcare - GOV.UK](#)

¹⁴ [Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry - GOV.UK](#)

¹⁵ [Good practice in rulemaking – guidance for regulators.pdf](#)

¹⁶ [Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry - GOV.UK](#)

¹⁷ [Report of the Independent Inquiry into the Issues raised by Paterson](#)

¹⁸ [First Do No Harm](#)

¹⁹ [Rapid evidence review: Tackling inequalities through the regulation of services and organisations - Care Quality Commission](#)

- Sicrhau hygyrchedd prosesau a chyfathrebiadau.
- Defnyddio data i fesur effaith ac olrhain cynnydd.
- Cydweithio â rheolyddion a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau systemig.

Llywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant

Roedd ffocws y dystiolaeth a adolygwyd yn y maes hwn yn llai ar ble gallai rheoleiddio wella ac yn fwy ar werth ymestyn goruchwyliaeth yr Awdurdod i ystyried y meysydd hyn fel rhan o'i adolygiad o reolyddion. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod yr ysgogiad i'r Awdurdod ystyried datblygu gofynion pellach ar lywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant hefyd yn deillio o dystiolaeth o'i oruchwyliaeth, gan gynnwys gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol a amlygodd bryderon ynghylch diwylliant a threfniadau diogelu yn y rheoleiddiwr.²⁰

Mae tystiolaeth gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)²¹ a sectorau eraill yn amlygu gwerth asesu llywodraethu, arweinyddiaeth, a diwylliant fel rhan o arolygiaeth reoleiddiol. Mae diwylliant cadarnhaol yn gysylltiedig â bod yn agored, dysgu a llywodraethu effeithiol.

Er nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi cysylltiad cryf rhwng diwylliant sefydliadol a pherfformiad, mae mwy o dystiolaeth o'i effeithiolrwydd o'i gyfuno â rheolaethau ansawdd.²² At hynny, mae diwylliant sefydliadol cadarnhaol yn gysylltiedig â bod yn fwy agored, gan ganiatáu siarad pan aiff pethau o chwith yn ogystal â chael cysylltiad cryf â llywodraethu ac arweinyddiaeth sefydliadol dda.²³

Yn ogystal â bod yn sail i fanteision goruchwyllo'r maes hwn o weithrediadau rheolyddion, nododd yr adolygiad nifer o feysydd penodol y gellid eu cynnwys o fewn safon yr Awdurdod a oedd yn archwilio llywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant.

Safonau a chanllawiau rheoleiddio

Canfu'r adolygiad tystiolaeth fod safonau a chanllawiau rheoleiddiol yn chwarae rhan hollbwysig wrth lunio hunaniaeth broffesiynol, dylanwadu ar ymddygiad, cefnogi gofal moesegol, ac arwain systemau iechyd trwy newidiadau technolegol a diwylliannol.²⁴ Fodd

²⁰ **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth - Independent Culture Review**

²¹ **Evaluation of the health care services Well led framework**

²² **Relationship between organizational culture and performance: literature review of the mediating and moderating effects**

²³ **Regulating reliably: building high-reliability regulators in healthcare - Carl Macrae, 2025**

²⁴ **How does professional regulation affect the identity of health and care professionals: exploring the views of professionals (Christmas a Cribb)**

bynag, er mwyn iddynt fod yn effeithiol, rhaid iddynt fod yn glir, yn eu cyd-destun, ac wedi'u hategu gan weithrediad cydweithredol.²⁵

Ymhlith yr heriau presennol a nodwyd mae:

- Amwysedd, anhyblygedd, a diffyg perthnasedd
- Anhawster addasu i faterion sy'n dod i'r amlwg (e.e. Deallusrwydd Artiffisial, cynaliadwyedd)²⁶
- Gorgyffwrdd a chamlinelliad ar draws rheolyddion lluosog.²⁷

Canfu'r adolygiad fod safonau ar eu mwyaf effeithiol pan fyddant:

- Yn glir, yn ymarferol ac wedi'i alinio ag arfer byd go iawn
- Wedi'i cynllunio ar y cyd ag ymarferwyr a chleifion
- Wedi'i hintegreiddio â chymorth systemig ac atebolrwydd cyflogwyr.

Mae adborth gan y cyhoedd a phroffesiynol yn cefnogi mwy o gysondeb mewn safonau, yn enwedig o ran ymddygiadau allweddol fel cyfathrebu a chydweithio.²⁸

Addysg a hyfforddiant

Education Mae addysg yn hanfodol ar gyfer gwreiddio diwylliant diogelwch a phroffesiynoldeb o ddechrau gyrfa gofal iechyd.²⁹ Fodd bynnag, prin oedd y gwaith ymchwil ar sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant gan reolyddion.

Roedd y canfyddiadau'n ymwneud â chynnwys cyrsiau addysg a hyfforddiant yn ogystal â dull y rheolyddion i sicrhau bod cyrsiau'n cael eu darparu'n gadarn a bod unigolion cofrestredig wedi'u harfogi i ddarparu gofal diogel ac effeithiol:

Roedd y meysydd allweddol i'w cryfhau o fewn y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn cynnwys:

- Defnydd o ddysgu rhyngbroffesiynol
- Cynnwys safbwyntiau cleifion a gofalwyr³⁰

²⁵ **RAND Europe 2012, Factors that encourage or discourage doctors from acting in accordance with good practice Final report for the GMC.**

²⁶ **<https://www.gmc-uk.org/-/media/gmc-site/about/barriersandenablersofgoodpracticefinalresearchreportpdf50388604.pdf>**

²⁷ **Asymmetry of influence | Y Sefydliad Iechyd**

²⁸ **Perspectives on a Common Code of Conduct for Health and Care Professionals**

²⁹ **How prepared are newly qualified allied health professionals for practice in the UK? A systematic review - Brennan N, Burns L, Mattick K, et al, BMJ Open 2024**

³⁰ **Cyfadran Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg Prifysgol Kingston a St George's, Prifysgol Llundain, 2016, Preparation for practice: The role of the HCPC's standards of education and training in ensuring that newly qualified professionals are fit to practise.**

- Pwyslais ar allu i addasu (e.e. digidol, deallusrwydd artiffisial, gofal yn y gymuned).³¹

Roedd gwelliannau posibl i'r dull gweithredu gan reolyddion a/neu ddarparwyr yn cynnwys:

- Mynd i'r afael â chyrhaeddiad gwahaniaethol, yn enwedig yn ôl ethnigrwydd³²
- Osgoi dyblygu a baich mewn prosesau sicrhau ansawdd (SA)³³
- Egluro rôl gefnogol y rheoleiddiwr mewn proffesiynoldeb³⁴
- Sicrhau bod gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant systemau ar waith i fynd i'r afael â meysydd risg newydd a pharhaus.³⁵

Mecanweithiau addasrwydd i ymarfer parhaus - DPP ac ailddilysu

Roedd y dystiolaeth yn ymwneud ag ail-ddilysu/addasrwydd parhaus i ymarfer/DPP yn gymysg gyda rhai astudiaethau yn pwysleisio buddion tra bod eraill wedi canfod fawr ddim effaith. Mae tystiolaeth o rai canlyniadau anfwriadol gan gynnwys baich ar unigolion cofrestredig a rhai effeithiau gwahaniaethol ar grwpiau penodol a allai ei chael yn anoddach bodloni gofynion.

Roedd pryderon am effaith prosesau o'r fath yn cynnwys:

- Baich ar unigolion cofrestredig³⁶
- Diben aneglur ailddilysu (gwelliant yn erbyn gorfodi)³⁷
- Effeithiau anghymesur ar rai grwpiau (e.e. anabl, lleiafrifoedd ethnig).³⁸

Roedd y dystiolaeth yn awgrymu nifer o feysydd i'w gwella:

- Egluro pwrpas a disgwyliadau
- Darparu enghreifftiau o arfer gorau

³¹ **Research on the standards for the initial education and training of pharmacy technicians**

³² **British Association of Physicians of Indian Origin, 2021, Bridging the Gap - Tackling Differential Attainment in the Medical Profession**

³³ **Professional, statutory and regulatory bodies: an exploration of their engagement with higher education**

³⁴ **When, where and how should we assess professionalism in undergraduate medical education? Practical tips from an international conference roundtable discussion. - Abstract - Europe PMC**

³⁵ **Realist evaluation of UK medical education quality assurance | BMJ Open**

³⁶ **Effect of Continuing Professional Development on Health Professionals' Performance and Patient Outcomes: A Scoping Review of Knowledge Syntheses**

³⁷ **Revalidation — what is the problem and what are the possible solutions?**

³⁸ **NMC, Understanding disabled professionals' revalidation Final report**

- Annog dysgu cyfoedion a chynlluniau datblygu personol (PDPs)³⁹
- Ystyried modelau ail-ddilysu hyblyg neu haenog.

Addasrwydd i ymarfer (FtP)

Mae corff sylweddol o dystiolaeth yn ymwneud â'r broses addasrwydd i ymarfer. Mae llawer o hyn yn nodi effeithiau negyddol ar y rhai sy'n ymwneud â'r broses yn ogystal â chyfleoedd a gollwyd i ddatrys pryderon yn gynharach neu i ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r broses addasrwydd i ymarfer i wella/targedu prosesau rheoleiddio eraill.

Mae tystiolaeth sylweddol o effeithiau negyddol ar unigolion cofrestredig gan gynnwys materion iechyd meddwl, ymddieithrio, a cholli gweithwyr proffesiynol o ymarfer. Mae tystiolaeth hefyd o ail drawmateiddio a cholli ymddiriedaeth ymhlith achwynwyr a thystion.

Mae'r materion allweddol sy'n codi yn cynnwys:

- Diffyg eglurder ar drothwyon atgyfeirio⁴⁰
- Prosesau cwynion anhygyrch ac anghefnogol⁴¹
- Cyfathrebu a chefnogaeth wael yn ystod ymchwiliadau^{42 43}
- Cyfeiriadau anghymesur o rai grwpiau⁴⁴
- Canlyniadau anghyson a diffyg tryloywder wrth wneud penderfyniadau.⁴⁵

Mae'r dystiolaeth yn amlygu meysydd allweddol i'w gwella gan gynnwys:

- Gwella brysbennu a hidlo cwynion
- Ystyried cyfansoddiad paneli a hyfforddiant i wella tegwch⁴⁶

³⁹ **HCPC, Continuing Fitness to Practise - Towards an evidence based approach to revalidation**

⁴⁰ **People like us? Understanding complaints about paramedics and social workers**

⁴¹ **New research reveals need for clearer, more accessible complaints systems for healthcare professional regulators | PSA**

⁴² **The experience of public and patient complainants through our fitness to practise procedures**

⁴³ **Doctors' experiences and their perception of the most stressful aspects of complaints processes in the UK: an analysis of qualitative survey data | BMJ Open**

⁴⁴ **Fair to refer?**

⁴⁵ **Professor Sir Normal Williams, 2018, Gross negligence manslaughter in healthcare: The report of a rapid policy review.**

⁴⁶ **The experience of doctors who have been through our complaints procedures - GMC**

- Gwneud prosesau cwyno yn fwy hygyrch a chefnogol⁴⁷
- Gwella tryloywder a chyfathrebu
- Darparu arweiniad cliriach ar ddifrifoldeb a hyder y cyhoedd⁴⁸
- Cefnogi cyfeirio priodol a datrys cwynion yn lleol lle bo'n briodol.⁴⁹

Camau nesaf

Byddwn yn cyhoeddi ein Safonau diwygiedig, wedi'u llywio gan yr adolygiad tystiolaeth hwn a'r ymgynghoriad, yn gynnar yn 2026.

Fel cam nesaf, byddwn yn adolygu canfyddiadau ehangach yr adolygiad o dystiolaeth i ystyried blaenoriaethau allweddol pellach ar gyfer yr Awdurdod wrth gefnogi symudiad at fodel rheoleiddio mwy ataliol. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn unrhyw gamau gweithredu pellach sy'n deillio o'r Adolygiad Safonau neu waith sy'n llifo o Gynllun Strategol 2026-29 newydd yr Awdurdod.

⁴⁷ **A Novel Content and Usability Analysis of UK Professional Regulator Information About Raising a Concern by Members of the Public**

⁴⁸ **The concept of seriousness in fitness to practise cases**

⁴⁹ **Wallace, Louise M and Greenfield, Mari, Engagement of health and social care employers in professional regulatory fitness to practise – missed regulatory and organisational opportunities?**

Adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau – canfyddiadau manwl

Atodiad - Canfyddiadau manwl

Mae'r adran hon yn rhoi rhai canfyddiadau manwl pellach a ffynonellau cyfeirio allweddol.

Cyf/maes safonau	Canfyddiadau	Tystiolaeth allweddol
Safonau Cyffredinol	Er nad oedd y dystiolaeth a adolygwyd i raddau helaeth yn amlygu diffygion penodol yn y Safonau Cyffredinol presennol (gweler y nodyn ar Safon 3 isod), roedd themâu'n codi yn ymwneud â'r swyddogaethau rheoleiddio eraill a allai awgrymu'r angen am Safonau Cyffredinol ychwanegol/ehangach. <u>Cysondeb/aliniad</u> Roedd peth o'r dystiolaeth a adolygwyd yn awgrymu y byddai'n fuddiol alinio dull gweithredu ar draws rheolyddion. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer addasrwydd i ymarfer lle'r oedd tystiolaeth yn amlygu gwahaniaethau mewn canlyniadau ar draws rheolyddion a'r risgiau o annhegwch canfyddedig neu wirioneddol ar draws rheolyddion. Beirniadodd Syr Robert Francis yn Ymchwiliad Francis i fethiannau yn Ymddiriedolaeth Sefydledig Canol Swydd Stafford y rheolyddion proffesiynol (meddygon a nyrsys yn bennaf) am anghysondeb ac argymhellodd wrandawriad achosion ar y cyd i sicrhau bod dyfarniadau yn gyson. Mae'r Awdurdod yn ei ganllawiau i reolyddion hefyd wedi amlygu gwerth cysondeb priodol ac wedi darparu offeryn i helpu rheolyddion sefydlu a yw cysondeb rheoleiddio yn ddymunol. <u>Cydweithio</u>	Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Inquiry Patient, carer, public and professional perspectives on the principle of consistency in health and care professional regulation Professor Sir Normal Williams, 2018, Gross negligence manslaughter in healthcare: The report of a rapid policy review. The concept of seriousness in fitness to practise cases How is public confidence maintained when fitness to practise decisions are made? Perspectives on a Common Code of Conduct for Health and Care Professionals Perspectives on discriminatory behaviours in health and care Bad apples? Bad barrels? Or bad cellars? Antecedents and processes of professional

Adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau – canfyddiadau manwl

Cyf/maes safonau	Canfyddiadau	Tystiolaeth allweddol
	Roedd tystiolaeth hefyd yn amlygu gwerth gwell cydweithio ar draws rheolyddion a chyda rhanddeiliaid ehangach ar faterion rheoleiddio a diogelwch cleifion. Ochr yn ochr â'r dystiolaeth a adolygwyd fel rhan o'r ymarfer hwn, mae hon yn thema sy'n codi'n aml yn ymgysylltiad yr Awdurdod â rhanddeiliaid a gwaith polisi. Canfu Ymchwiliad Francis fod y system reoleiddio yn ei chyfanrwydd wedi methu ag amddiffyn cleifion oherwydd nad oedd yn cydweithio'n effeithiol. Er bod y ddau Safonau Rheoleiddio Da eisoes yn cyffwrdd ag ymgysylltu â rhanddeiliaid (Safon pump, rheolyddion a Safon wyth, Cofrestrau Achrededig) nid yw'r elfen hon wedi'i hamlygu'n benodol. Er y cânt eu cynnwys ar wahân, efallai y byddai'n werth ystyried a ddylai unrhyw Safon(au) newydd ar lywodraethu a diwylliant arweinyddiaeth fod yn rhan o'r safonau cyffredinol neu gael ei hadran ei hun gyda'r Safonau.	misconduct in UK Health and Social Care: Insights into sexual misconduct and dishonesty
Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Safon 3 (rheolyddion) a Safon 9 (Cofrestrau Achrededig)	Ymdrinnir yn bennaf â'r canfyddiadau sy'n ymwneud ag EDI yn erbyn y Safonau eraill lle maent yn berthnasol. Yn ogystal, mae Safon 3 wedi'i hadolygu'n ddiweddar ac mae Safon AR 9 yn gymharol newydd felly mae'n debygol y bydd y gofynion yn gymharol ddiweddar. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr adran ar addysg a hyfforddiant efallai y bydd mwy y gall y Safonau'r Awdurdod ei wneud i annog rheolyddion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o fewn y system ehangach, er enghraifft mewn perthynas â chyrhaeddiad gwahaniaethol pan fo anghydraddoldebau'n parhau.	

Adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau – canfyddiadau manwl

Cyf/maes safonau	Canfyddiadau	Tystiolaeth allweddol
Arweinyddiaeth , llywodraethu a diwylliant – crynodeb	Mae'r dystiolaeth yn dangos gwerth asesu llywodraethu, diwylliant ac arweinyddiaeth o fewn sefydliadau. Prin oedd y gwaith ymchwil a oedd yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar reoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol, felly daw'r llenyddiaeth a adolygwyd yn bennaf o'r sector iechyd ehangach gan gynnwys y Comisiwn Ansawdd Gofal sy'n asesu llywodraethu, diwylliant ac arweinyddiaeth o fewn sefydliadau darparwyr gofal iechyd yn ogystal â sectorau rheoleiddiedig eraill. Er nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi cysylltiad cryf rhwng diwylliant sefydliadol a pherfformiad, mae mwy o dystiolaeth o'i effeithiolrwydd o'i gyfuno â rheolaethau ansawdd. At hynny, mae diwylliant sefydliadol cadarnhaol yn gysylltiedig â bod yn fwy agored, gan ganiatáu siarad pan aiff pethau o chwith yn ogystal â chael cysylltiad cryf â llywodraethu ac arweinyddiaeth sefydliadol dda. Gan fod EDI yn rhan o ddiwylliant sefydliadol sefydliad, mae argymhellion o astudiaeth a gomisiynwyd gan y CQC i sut y gall rheolyddion annog gwelliannau EDI sy'n berthnasol i'r adran hon.	
Arweinyddiaeth a llywodraethu	Mae'r dystiolaeth a adolygwyd yn dangos cyflymdra cynyddol o newid mewn dulliau therapiwtig a datblygiad meddyginiaethau. Mae'r ymchwil hwn yn berthnasol yn bennaf i reoleiddio meddyginiaethau, dyfeisiau ac ati, ond mae'n berthnasol i reolyddion proffesiynol. Byddai rheolyddion yn elwa ar fwy o fonitro "mega dueddiadau byd-eang" - pwysigrwydd sganio'r gorwel	Future directions in regulatory affairs

Adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau – canfyddiadau manwl

Cyf/maes safonau	Canfyddiadau	Tystiolaeth allweddol
	Dylai rheolyddion fod yn fwy sylwgar i dueddiadau byd-eang sy'n effeithio ar ddarpariaeth gofal iechyd, gydag arweinwyr sydd â'r sgiliau cywir i arwain yn yr amgylchedd presennol. Yn tynnu o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys ymchwiliadau mawr i argymhell newidiadau i lywodraethu rheolyddion proffesiynol. Mae gan y cynghorau sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol, o leiaf, gydraddoldeb o ran aelodaeth rhwng aelodau lleig a phroffesiynol, er mwyn sicrhau na chredir bod pryderon cwbl broffesiynol yn dominyddu eu gwaith i alluogi cynghorau i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar strategaeth a throsolwg eu swyddogion gweithredol, byddant yn dod yn llai ac yn debycach i'r bwrdd, gyda mwy o gysondeb o ran maint a rôl ar draws y cyrff rheoleiddio proffesiynol	Trust, Assurance and Safety - The Regulation of Health Professionals in the 21st Century CM 7013
Arweinyddiaeth , llywodraethu	Yn yr erthygl hon, mae Macrae yn cynnig pum egwyddor rheolyddion dibynadwy iawn: • Pryder am risg • Sensitifrwydd i ymarfer • Ymwneud ag amrywiaeth • Galluogi arbenigedd • Ymrwymiad i ddysgu Bwriad y rhain yw dangos sut: 'efallai y bydd rheolyddion gofal iechyd yn cefnogi'n well y monitro astud, yr her adeiladol a'r gwelliant systemig sydd eu hangen i sicrhau diogelwch ac ansawdd ar draws systemau gofal iechyd cymhleth.'	Regulating reliably: building high-reliability regulators in healthcare - Carl Macrae, 2025

Adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau – canfyddiadau manwl

Cyf/maes safonau	Canfyddiadau	Tystiolaeth allweddol
	Daw'r egwyddorion hyn o bum nodwedd rheolyddion dibynadwy iawn a ddatblygwyd yn yr 1980au yn seiliedig ar astudiaeth o sefydliadau sy'n gweithredu mewn <i>amgylcheddau 'heriol, anfaddeugar a deinamig'</i>. Pryder am fethiant: Mae sefydliadau'n meithrin pryder dwfn ac eang am fethiant, lle mae pobl yn cael eu hannog a'u cefnogi i sylwi a siarad am fethiannau a damweiniau, a daw'r rhain yn ffocws ymdrechion mwy cyffredinol i ddeall a gwella systemau ac arferion sefydliadol. Sensitifrwydd i weithrediadau: Mae sefydliadau'n gweithio i gynnal sensitifrwydd parhaus tuag at weithrediadau, lle mae pobl ym mhob maes ac ar lefel y sefydliad yn rhoi sylw manwl i waith gweithredol rheng flaen, ac yn gweithio i adeiladu darlun clir a manwl o statws y gweithgareddau cyfredol hynny ac unrhyw broblemau a allai fod yn datblygu. Amharodrwydd i symleiddio: Nod sefydliadau yw meithrin amharodrwydd i symleiddio, gan annog pobl i osgoi atebion gor-symml i gwestiynau cymhleth, aros yn agored i newydd-deb a syndod a chwilio am safbwyntiau a barnau gwahanol ac amrywiol mewn ymdrech i gynnal darlun manwl a chynnil o risg. Parch i arbenigedd: Mae sefydliadau wedi'u strwythuro i feithrin arbenigedd dwfn, a galluogi'r wybodaeth fwyaf perthnasol i gael ei defnyddio ar broblem, wedi'i hannog gan barch eang at arbenigedd y mae pobl yn cyfeirio ato i'r rhai sydd â'r arbenigedd a'r profiad ymarferol mwyaf yn hytrach na'r rhai â'r safle uchaf. Ymrwymiad i wydnwch: Nod sefydliadau yw cynnal ymrwymiad i wydnwch trwy ddylunio a chynnal prosesau a systemau sefydliadol sy'n gallu nodi, dal a llamu'n ôl o amhariadau a methiant ac sy'n gallu	

Adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau – canfyddiadau manwl

Cyf/maes safonau	Canfyddiadau	Tystiolaeth allweddol
	ymateb yn addasol ac yn hyblyg i ddigwyddiadau rhyfeddol, annisgwyl a heb eu cynllunio.	
Arweinyddiaeth	Mae ad-drefnu strwythurol y CQC wedi arwain at wahanu'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi a strategaeth sy'n ymwneud â rheoleiddio oddi wrth y rhai sy'n gyfrifol am gyflenwi gweithredol. Felly nid yw realiti gweithredol wedi'i adlewyrchu mewn polisi a strategaeth. Mae'r adroddiad hwn yn dangos pwysigrwydd cydlyniant rhwng polisi/strategaeth a chyflawniad gweithredol.	Review of CQC's single assessment framework and its implementation - Care Quality Commission
Llywodraethu	Mae'r adroddiad hwn yn rhoi enghraifft o ble mae'r Awdurdod wedi asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoleiddiwr proffesiynol.	Review of the legislation and governance for Engineers and Geoscientists in British Columbia (June 2018)
Llywodraethu	Canllawiau ar hanfodion llywodraethu da: • Cyfrifoldeb ac atebolrwydd, Ymddygiadau personol a dal swydd gyhoeddus • Delio ag anghytundeb • Rolau a pherthnasoedd • O gynrychiolaeth i hygredd • Gwrthdaro buddiannau • Deall perfformiad • Goruchwyllo cwynion Ar gyfer Byrddau/Cynghorau – pwysigrwydd atebolrwydd cyfunol ac unigol, recriwtio ar gyfer sgiliau ac arbenigedd yn hytrach na chynrychiolaeth, proffesiynoldeb, gwerthuso, tryloywder, a rheoli gwrthdaro buddiannau; rôl y cadeirydd wrth ymdrin ag anghytundeb.	Fit and Proper? Governance in the public interest Board size and effectiveness: advice to the Department of Health regarding health professional regulators

Adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau – canfyddiadau manwl

Cyf/maes safonau	Canfyddiadau	Tystiolaeth allweddol
	Adolygiad o nodweddion byrddau sy'n eu gwneud yn fwy effeithiol: • Aelodaeth 8-12 optimaidd ar gyfer gwneud penderfyniadau da ac amrywiaeth syniadau [er DS byddai angen i reolyddion ddiwygio rheoliadau/rheolau cyfansoddiad ac ati] • Symud i ffwrdd o fod yn gynrychioliadol i sgiliau a chymwyseddau	
Arweinyddiaeth	Mae'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn y Deyrnas Unedig yn gymhleth ac yn ddryslyd. Nid ydynt yn cael eu llywio gan ddull cyson o asesu risg galwedigaethol o niwed. Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol wedi dadansoddi'r trefniadau presennol ac wedi gwneud set o gynigion ar gyfer diwygio. Mae hefyd wedi cynnig methodoleg ar gyfer asesu risg o niwed, er mwyn gallu canfod y math priodol o sicrwydd ar gyfer unrhyw alwedigaeth benodol. Pwysigrwydd seilio penderfyniadau ynghylch sut i reoleiddio ar asesiad o risg galwedigaethol o niwed (Bilton a Cayton)	Reforming the professional regulators: Creating an effective, proportionate and efficient system
Arweinyddiaeth, llywodraethu a diwylliant	Mae'r defnydd o fframwaith a arweinir yn dda (WLF) y CQC wedi arwain at welliannau mewn arweinyddiaeth a llywodraethu. Mae'n gweithio'n dda pan gaiff ei gymhwyso gyda chydbwysedd priodol rhwng diwylliant ac arweinyddiaeth, a llywodraethu a phrosesau. Mae amrywiaeth o argymhellion a allai fod yn berthnasol, gan gynnwys: • Trefnu'r WLF o dan ddau bennawd eang: llywodraethu a phrosesau, a diwylliant ac arweinyddiaeth • Mireinio elfennau diwylliant ac arweinyddiaeth y fframwaith, gan gynnwys mwy ar fesurau ac awgrymiadau ar gyfer asesu diwylliant sefydliadol.	Evaluation of the health care services Well led framework

Adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau – canfyddiadau manwl

Cyf/maes safonau	Canfyddiadau	Tystiolaeth allweddol
	Ehangu a chyfnerthu'r ddogfennaeth sydd ar gael o amgylch y WLF i gynnwys arfer da a rhagorol ar gyfer pob KLOE.	
Diwylliant:	Mae'r astudiaeth hon yn dangos pwysigrwydd diwylliant mewn sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus; yn gwneud argymhellion ar sut i'w wella a'i asesu.	Institute of Public Administration 2015, Organisational culture and the public service
Safon Diwylliant	Nid yw'r cysylltiad rhwng diwylliant sefydliadol a pherfformiad wedi'i brofi'n derfynol, gan ei fod yn anodd ei ddiffinio a'i fesur. Fodd bynnag, mae adroddiad pellach yn awgrymu bod cysylltiad cliriach os caiff ei gyfuno â mecanweithiau rheoli ansawdd.	Organisational culture and performance: an evidence review. Scientific summary Relationship between organizational culture and performance: literature review of the mediating and moderating effects
Diwylliant	Mae'r astudiaeth hon yn nodi awgrymiadau ar sut i gael argraff gychwynnol o ddiwylliant sefydliad, e.e. darllen eu cyhoeddiadau, arsylwi sut y cynhelir cyfarfodydd ac ati	Understanding organisational culture
Diwylliant	Mae'r strategaeth yn tanlinellu pwysigrwydd diwylliannau diogelwch agored a gonest, a diogelwch seicolegol, sy'n galluogi dysgu pan aiff pethau o chwith; mae absenoldeb y diwylliannau hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o ailadrodd. Yn gyfochrog ag ymatebion rheolyddion i bethau sy'n mynd o chwith. (Gweler hefyd Rheolyddion Dibynadwyedd Uchel Macrae.)	The NHS Patient Safety Strategy Safer culture, safer systems, safer patients Regulating reliably: building high-reliability regulators in healthcare - Carl Macrae, 2025
Diwylliant: Tystiolaeth ac asesiad	Mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio bod diwylliant sefydliadol cadarnhaol yn hanfodol i arweinyddiaeth a llywodraethu da ac mae'n	A duty to care? Evidence of the importance of organisational culture to effective governance and leadership

Adolygiad tystiolaeth yr Adolygiad Safonau – canfyddiadau manwl

Cyf/maes safonau	Canfyddiadau	Tystiolaeth allweddol
	cynnwys amrywiaeth o argymhellion ynghylch sut i wella a chynnal diwylliannau cadarnhaol	
